# PWYLLGOR GWAITH

## Dydd Llun, 19 Rhagfyr 2016 (10.00 o'r gloch)

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda, adroddiad ar gyfer Eitem 8 ar raglen y Pwyllgor Gwaith a oedd heb gyrraedd erbyn yr amser penodol.

**8** **SAFLEOEDD I SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Rhagfyr 2016** |
| **Pwnc:** | **Y Bwriad i Ddatblygu Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Rowlands**<br>**01248 752240**<br>**drxhp@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd R Meirion Jones, Cynghorydd Alun Mummery, Cynghorydd Jim Evans** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo: -

**A1**. Nodi'r cynnydd ers i'r Pwyllgor Gwaith roi caniatâd i symud ymlaen gydag ymchwiliadau cychwynnol i ddatblygu safleoedd Penhesgyn a Star a cherrig milltir allweddol arfaethedig ar gyfer darparu'r prosiect.

**A2.** Cymeradwyo'r defnydd, mewn egwyddor, o Orchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol er mwyn diogelu'r tir sy'n hanfodol ar gyfer datblygu Llety i Sipsiwn a Theithwyr rhag ofn na fydd Swyddogion yn gallu sicrhau'r safle drwy drafodaethau.

**1.1 Cefndir**

**1.2** Bydd Aelodau'n cofio bod y Pwyllgor Gwaith ar 31 Mai 2016 wedi penderfynu "Bod tir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd yn cael ei ddewis fel safle posibl i gwrdd ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn amodol ar ganlyniadau ymchwiliadau pellach i gadarnhau addasrwydd y safle o safbwynt diogelwch priffyrdd ac iechyd a'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd".

**1.3** Ar 25 Gorffennaf, 2016, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith "Dylai'r Cyngor Sir gynnal ymchwiliadau pellach i Safle 1, sef y llain o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star i gadarnhau a ydyw'n addas ai peidio ac ar gyfer asesu ymhellach unrhyw risgiau i ddiogelwch neu risgiau technegol ar y safle ac ystyried a fyddai modd dylunio'r safle er mwyn datrys y rhain".

CC-016749-LB/229501

**1.4** Roedd y ddau benderfyniad yn cynnwys penodi ymgynghorwyr priodol er mwyn paratoi dyluniad o'r safle a cheisiadau cynllunio dilynol.

**2.1 Y Sefyllfa Bresennol**

**2.2** Er mwyn symud hyn yn ei flaen, paratowyd dogfennau datrysiad tendr er mwyn ceisio penodi ymgynghorwyr amlddisgyblaeth â digon o brofiad er mwyn cefnogi a gwireddu amcanion y Cyngor.

**2.3** Cyhoeddwyd y rhybudd tendr ar wefan GwerthwchiGymru drwy'r Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol - Ymgynghoriaeth Gweithgynhyrchu Sector Cyhoeddus Cymru a chafwyd gynnig erbyn y dyddiad cau o 17 Hydref, 2016. Mae'r tendrau wedi cael eu gwerthuso o ran pris ac ansawdd ac, yn dilyn cyfnod o geisio cadarnhad pellach, cadarnhaodd y panel gwerthuso tendrau mai'r cynnig a gyflwynwyd gan Capita oedd yr un mwyaf manteisiol yn economaidd.

**2.4** Mae Capita wedi dangos fod ganddynt y profiad perthnasol, y capasiti a'r gallu i ddarparu safleoedd llety i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r gwasanaethau ymgynghori a ddarperir yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, Reoli Prosiect, Pensaernïaeth, Pensaernïaeth Tirlun, Peirianneg Priffyrdd ac Isadeiledd, Cynllunio, Gwasanaeth Mesur Meintiau a dyletswyddau CDM.

Mae Capita wedi cadarnhau bod gan eu tîm cyflawni ymroddedig brofiad o weithio ar brosiectau amlddisgyblaeth tebyg ac yn benodol ar ddau safle Sipsiwn a Theithwyr yn ddiweddar yn Ne Cymru a Gogledd Cymru.

**2.5** Mae cerrig milltir allweddol ar gyfer y prosiect wedi eu hadnabod ac fe rennir y prosiect yn bum prif gam, sef:

| Disgrifiad o'r targed allweddol | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Cam 1: Dechreuad y Prosiect – Opsiynau Dyluniad Cychwynnol a Chostau. | Rhagfyr 2016 / Ionawr 2017 |
| Cam 2: Cais Cynllunio ac Ymgynghoriad cyn y Cais. | Chwefror / Mawrth 2017 |
| Cam 3: Dyluniad Manwl a Manyleb. | Mawrth / Ebrill 2017 |
| Cam 4: Dogfennau Tender a Chaffael Contractwr. | Ebrill / Mai 2017 |
| Cam 5: Contract Adeiladu. | Gorffennaf / Rhagfyr 2017 |

Mae cofrestr risg yn cael ei datblygu ar y cyd â Capita er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli mewn modd cynhwysfawr. Mae'r prif risgiau i ddarpariaeth y prosiect fel y nodwyd o'r dechrau yn cynnwys sicrhau Caniatâd Cynllunio ac oedi posibl o ganlyniad i weithdrefnau Prynu Gorfodol.

Yn dilyn cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol y Cyngor, mae cyngor cyfreithiol arbenigol wedi'i geisio gan gyfreithwyr Browne Jacobson ar nifer o faterion yn ymwneud â'r prosiect. Mae Browne Jacobson bellach wedi darparu cyngor ysgrifenedig ar bedwar mater cyfreithiol a godwyd gan y Cyngor. Bydd aelodau bwrdd prosiect CSYM yn ystyried y cyngor fel rhan o gynllun y prosiect.

**3.1 Diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol**

**3.2** Cynhaliwyd cyfres o wrandawiadau a gadeiriwyd gan Arolygydd Cynllunio er mwyn asesu cadernid fersiwn adneuol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a hynny rhwng 6 Medi a 1 Tachwedd.

**3.3** Cynhaliwyd y Sesiwn am y ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaernarfon ar 30 Medi 2016 a chafwyd cyfraniadau gan staff UPCC a Swyddogion CSYM. Mae'r Arolygydd wedi adnabod pwyntiau gweithredu penodol sy'n codi o'r Gwrandawiad, mae'r prif bwyntiau gweithredu mewn perthynas â materion Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys:-

- Dim angen adnabod safle stopio dros dro (h.y. tir ger Star) fel safle dynodedig yn y CDLl sy'n esblygu, ond y dylai testun neu bolisi esboniadol y Cynllun (drwy Newidiadau Materion yn Codi) gofnodi'r angen am safleoedd stopio dros dro a nodi'r materion i'w hystyried.

- Y safle y mae'r Cyngor yn ei ffafrio ym Mhenhesgyn ar gyfer 4 llain i'w cyflwyno fel Newidiadau Materion sy'n Codi i'r map polisïau a chynigion.

- Mân newidiadau i eiriad Polisïau Sipsiwn a Theithwyr a'r testun esboniadol.

**3.4** Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar y **Newidiadau i'r Materion sy'n Codi** ar y Cynllun, a fydd yn cynnwys dynodiad arfaethedig Safle Penhesgyn ym mis Ionawr 2016 a chywiriadau i'r testun er mwyn cynnwys mannau stopio dros dro gan roi 6 wythnos i'r rheini sydd â diddordeb wneud sylwadau. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu hanfon at yr Arolygydd ar gyfer ei ystyriaeth ac er mwyn penderfynu a oes angen Gwrandawiad ychwanegol cyn iddo gwblhau ei adroddiad.

Disgwylir Adroddiad yr Arolygydd tua diwedd Mawrth 2017. Yna, bydd Adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor ar gyfer ei fabwysiadu.

**4.1 Diweddariad ar Gaffael y Tir**

**4.2 Penhesgyn** – Effeithio ar un perchennog tir. Bydd yn rhaid i'r Cyngor gaffael rhan o gae amaethyddol er mwyn creu mynedfa i'r safle parhaol arfaethedig ar gyfer teithwyr. Mae sgyrsiau cychwynnol â'r perchennog tir yn awgrymu nad ydynt yn fodlon gwerthu'r tir.

**4.3 Star -** Dau berchennog tir wedi eu heffeithio. Mae un yn gweithio gyda'r Cyngor yn y broses arfaethedig o brynu eu tir, fodd bynnag, nid yw'r ail wedi ymateb i'n gohebiaeth ddiweddar.

**4.4** Oni fydd modd caffael y tir drwy drafodaeth, ystyrir y byddai'n beth doeth gofyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad pellach i ddefnyddio pwerau Pryniant Gorfodol os rhagwelir mai dyma fydd yr unig ffordd o sicrhau perchenogaeth y tir. Caiff yr egwyddor o ddefnyddio pwerau pryniant gorfodol mewn perthynas â sicrhau tir ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ei nodi ym mharagraff 23 Cylchlythyr 30/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafannau i Sipsiwn a Theithwyr lle dywedir:

*"Dylai Awdurdodau ystyried hefyd a fydd efallai'n briodol iddynt ddefnyddio eu pwerau pryniant gorfodol i gaffael safleoedd priodol*."

**4.5** Unwaith y bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPC) yn cael ei gadarnhau fe geisir penderfyniad pellach er mwyn gwneud y (GPC)

**4.6** Mae ein hymgynghorwyr cyfreithiol wedi nodi y gall fod yn briodol i ddefnyddio pwerau dan Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("MHWA") i sicrhau tir ar gyfer safleoedd arfaethedig. Dan Adran 56, mae gan y Cyngor y pŵer i brynu tir drwy orfodaeth mewn achosion lle yr ymddengys:

(a) Bod angen safle ar gyfer cartrefi symudol neu safle ychwanegol yn ei ardal; neu

(b) Y dylai tir sy'n cael ei ddefnyddio fel safle ar gyfer cartrefi symudol gael ei gymryd drosodd gan yr awdurdod lleol a hynny er budd y defnyddwyr.

**4.7** Ni fedrir defnyddio'r pŵer a ganiateir dan Adran 56 oni bai fod y Cyngor wedi cael awdurdod gan Weinidogion Cymru i'w ddefnyddio. Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn cefnogi defnyddio pwerau prynu drwy orfodaeth lle mae achos grymus sy'n profi ei fod er budd y cyhoedd. Ym mharagraff 14 Cylchlythyr 14(2)2004 ("NAFWC14(2)"), dywedir: Bydd y ffactorau allweddol o ran penderfynu ar hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r isod:

*"Dim ond lle mae rheswm da sydd er lles y cyhoedd y dylid gwneud gorchymyn prynu gorfodol. Dylai awdurdod caffael fod yn siwˆr bod y rhesymau dros wneud y gorchymyn hwnnw yn cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rhai sydd â budd yn y tir dan sylw ar ôl ystyried, yn benodol, ddarpariaethau Erthygl 1 ym Mhrotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a, lle mae tŷ dan sylw, Erthygl 8 o'r Confensiwn."*

**4.8** Dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("HRA 1998"), cafodd y Confensiwn ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig. Dan HTA 1998, mae'n anghyfreithlon i gorff cyhoeddus weithredu'n groes i'r Confensiwn.
Mae Erthygl 1 y Protocol Cyntaf yn amddiffyn hawl bawb i fwynhad heddychlon o'u heiddo. Ni fedrir amddifadu unrhyw un o'u heiddo ac eithrio pan fo hynny er budd y cyhoedd ac yn amodol ar y cyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol.

Mae Erthygl 8 yn gwarchod bywyd preifat a bywyd teuluoedd a chartref a gohebiaeth. Ni fedr unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawliau hyn ac eithrio mewn achosion lle mae hyn yn cydymffurfio gyda'r gyfraith ac yn hanfodol er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal trosedd ac anhrefn, ar gyfer gwarchod iechyd neu foesau neu er mwyn gwarchod hawliau a rhyddid eraill.

Rhaid i'r Cyngor gymryd yr hawliau hyn i ystyriaeth wrth benderfynu gwneud defnydd o'i bwerau prynu drwy orfodaeth a tharo cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion mewn perthynas â'r tir dan sylw a budd y cyhoedd.

**4.9** I orchymyn gael ei gadarnhau, bydd angen i'r Cyngor gyfiawnhau ei ddefnydd o bwerau prynu drwy orfodaeth. Mae paragraffau 13 i 20 NAFWC(2) yn nodi'r canllawiau ar gyfer y cyfiawnhad hwnnw. Rhaid i'r Cyngor fedru profi:

i) Bod ganddo'r awdurdod drwy statud i brynu tir drwy orfodaeth i bwrpas penodol a bod angen GPG i'r diben hwnnw.

ii) Bod achos grymus o ran budd cyhoedd sy'n cyfiawnhau'n ddigonol ymyrryd gyda hawliau y sawl sydd â diddordeb yn y tir a effeithir. Dylid cymryd i ystyriaeth ddarpariaethau Erthygl 1 y Protocol Cyntaf ac Erthygl 8.

iii) Bod adnoddau digonol ar gael neu'n debygol o fod ar gael i weithredu'r GPG o fewn yr amserlen statudol yn dilyn ei gadarnhau a'r cynllun GPG o fewn cyfnod amser rhesymol.

iv) Bod posibilrwydd rhesymol y bydd y cynllun GPG yn mynd yn ei flaen (er enghraifft, nad oes unrhyw rwystr o safbwynt cynllunio).

v) Nid oes unrhyw safle arall neu fodd arall o gyflawni amcan y GPG (h.y. rhaid ystyried cynlluniau amgen).

vi) Mae GPG yn rhywbeth y dylid ei ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu a bod trafodaeth i brynu'r tir drwy gytundeb wedi cael eu cynnal ond wedi methu.

Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r uchod ar adeg gwneud y GPC.

**4.10** Bydd swyddogion yn cymryd i ystyriaeth ddwy ffynhonnell bwysig o arweiniad mewn perthynas ag egwyddorion a gweithdrefnau ar gyfer delio gyda Phryniant Gorfodol, sef Cylchlythyr NAFWC/14 a'r Llawlyfr Gweithdrefnau ar gyfer Prynu Gorfodol.

**4.11** Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu gyda'r perchenogion cyfredol ynghylch

egwyddor prynu tir drwy drafodaeth. Nid yw cychwyn gweithdrefnau GPG yn ymrwymo'r Cyngor i brynu'r eiddo ond mae'n arwydd clir i'r rhydd-ddeiliad o'n bwriad. Gobeithir y gall y Cyngor osgoi'r angen i gymryd camau statudol a sicrhau'r tir drwy drafodaeth.

**5.1 Diweddariad Caergybi**

**5.1 Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 31 Mai 2016, m**ae'r Gwasanaeth Tai yn gwneud gwaith ymchwil ar hyn i batrymau teithio Teithwyr Gwyddelig drwy borthladd Caergybi. Disgwylir y bydd yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2017.

**6.1 Llywodraethiant y Prosiect**

**6.2** Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu er mwyn llywio a rheoli darpariaeth y prosiect. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn fisol ac yn cael eu cadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, Dr Caroline Turner a byddant yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Llywodraethiant Corfforaethol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gweler yr adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 31 Mai, 2016 a 25 Gorffennaf, 2016. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Ymwneud â Chyllideb y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodwyd â'r UDA ar 28/11/16 ac mae eu sylwadau wedi'u nodi. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim gwrthwynebiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Trafodwyd hefo Adain Cyfreithiol ac mae eu sylwadau wedi'u nodi. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylw |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Dim sylw |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank